



Cyngor
Osteopathig
Cyffredinol

**Fframwaith Cydraddoldeb,
Amrywiaeth a Chynhwysiant
2021-24**

Cyflwyniad

1. Fel y rheoleiddiwr gofal iechyd statudol ar gyfer ymarfer osteopathi yn y DU, mae ein dull o ymdrin â Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn hanfodol o ran llwyddo i gyflawni ein Cynllun Strategol ar gyfer 2019-24.
2. Er mwyn i ni fod yn rheoleiddiwr grymus ac effeithiol, mae'n hi'n hanfodol i ni ymwreiddio Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant trwy ein holl fusnes a sicrhau bod yr elfennau hyn wrth galon a chraidd ein gweithgareddau.
3. Mae'r fframwaith hwn yn pennu'r canlynol:
 - Ein polisi a'n dyletswyddau cyfreithiol.
 - Y camau y bwriadwn eu cymryd.
 - Ein trefniadau ar gyfer llywodraethu Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.
4. Rydym wedi ymrwymo'n llwyr i wella mwy fyth ar ein dull o ymdrin â Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, a bydd Cyngor y Cyngor Osteopathig Cyffredinol yn adolygu'r fframwaith hwn yn flynyddol fan leiaf.

Ynglŷn â'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol (GOsC)

5. Ni yw rheoleiddiwr statudol annibynnol y proffesiwn osteopathi yn y DU. Cawsom ein sefydlu gan Ddeddf Osteopathiaid 1993.
6. Amcan cyffredinol y GOsC yw amddiffyn y cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys mynd ar drywydd yr amcanion canlynol:
 - a. Amddiffyn, hyrwyddo a chynnal iechyd, diogelwch a llesiant y cyhoedd;
 - b. Hyrwyddo a chynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiwn osteopathi, a
 - c. Hyrwyddo a chynnal ymddygiad a safonau proffesiynol priodol ar gyfer aelodau'r proffesiwn.
7. Hefyd, rydym yn gyfrifol am ddatblygu a rheoleiddio'r proffesiwn osteopathi, fel y nodir yn Adran 1(2) o Ddeddf Osteopathiaid 1993.
8. Rydym yn cyflawni ein hamcanion a'n cyfrifoldebau cyffredinol trwy wneud y canlynol:
 - Cadw Cofrestr o'r rhai y caniateir iddynt ymarfer osteopathi yn y DU.
 - Gweithio gyda'r cyhoedd a'r proffesiwn osteopathi i hyrwyddo diogelwch cleifion trwy gofrestru gweithwyr proffesiynol cymwysedig a thrwy osod, cynnal a datblygu safonau'n ymwneud ag ymddygiad ac ymarfer yn y maes.
 - Helpu cleifion¹ gyda phryderon neu gwynion ynglŷn ag osteopathi, yn cynnwys meddu ar y pŵer i dynnu enwau osteopathiaid oddi ar y Gofrestr os ydynt yn anghymwys i ymarfer.

¹ Gall 'cleifion' olygu cleifion, gofalgwyr, eu teuluoedd a'r cyhoedd.

- Sicrhau ansawdd addysg osteopathig a gwneud yn siŵr bod osteopathiaid yn mynd i'r afael â datblygiad proffesiynol parhaus.
9. Mae Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn elfen hanfodol o'r modd y cyflawnwn ein hamcanion cyffredinol. Mae ystyried gwahanol anghenion a chydabod safbwyntiau amrywiol yn gryfder, a daw â dyfnder ychwanegol i'n gwaith.
 10. Golyga hyn y byddwn yn ymddwyn mewn modd cyson a theg tuag at bawb y gweithiwn gyda nhw, gan fawrbriso a pharchu eu barn a'u buddiannau. Hefyd, byddwn yn ceisio dileu unrhyw weithgareddau a allai arwain at wahaniaethu neu allgau ar sail nodweddion unigol.
 11. Deallwn fod gennym rôl hollbwysig o ran annog a hyrwyddo Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ymhlith ein hosteopathiaid er mwyn iddynt allu pennu eu buddion eu hunain yn enwedig o ran sut maent yn rhyngweithio, yn cyfathrebu ac yn gweithio ar y cyd â'u partneriaid.
 12. Er mwyn i ni allu ymgorffori'r fersiwn orau bosibl o'n sefydliad, deallwn fod yn rhaid i ni ddenu, datblygu, cymell a chadw pobl dalentog ar hyd a lled ein busnes, a bod gan ein holl staff rôl allweddol o fewn ein sefydliad. Felly, mae hi'n bwysig i ni sicrhau bod ein diwylliant a'n gwerthoedd yn adlewyrchu Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a bod modd i'n pobl allu bod yn driw iddynt eu hunain yn ein gweithle.
 13. Mae angen i'n staff a'n swyddogion anweithredol ymrwymo i hyrwyddo Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, ynghyd â bodloni ein dyletswyddau cydraddoldeb ac amcanion y fframwaith hwn, sy'n ategu'r modd y cyflawnir nodau ein Cynllun Strategol.

Nodau Strategol y GOsC ar gyfer 2019-24

- Byddwn yn cynorthwyo'r proffesiwn osteopathig i ddarparu gofal o'r radd flaenaf, a fydd yn amddiffyn cleifion a'r cyhoedd yng nghyd-destun newidiadau yn nhirwedd ddynamig y maes gofal iechyd.
- Byddwn yn datblygu ein sicrwydd o ran addysg osteopathig er mwyn cynhyrchu graddedigion o'r radd flaenaf sy'n barod i ymarfer.
- Byddwn yn creu cydberthnasau agosach gyda'r cyhoedd² a'r proffesiwn, gan seilio'r cydberthnasau hynny ar ymddiriedaeth a thryloywder.
- Byddwn yn batrwm o ran rheoleiddio gofal iechyd modern – byddwn yn hygyrch, yn effeithiol, yn arloesol, yn ystwyth, yn gymesur ac yn fyfyrionol.

² Yn y fan hon, mae'r 'cyhoedd' yn golygu cleifion osteopathig a darpar gleifion yn hytrach nag aelodau ehangach o'r cyhoedd na allwn ddylanwadu arnynt gyda'n cyllidebau bach a'n ffocws penodol.

Ein hamcanion o ran Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

14. Y ffordd orau o ddisgrifio ein hamcanion Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yw trwy eu nodi ochr yn ochr â'n hymrwymiaidau, sef:

- Hyrwyddo tegwch
- Mawrbriso amrywiaeth
- Croesawu cynhwysiant

Hyrwyddo tegwch

15. Er mwyn hyrwyddo tegwch, byddwn yn sicrhau bod ein gweithgareddau rheoleiddio yn deg ac na fyddant yn cynnwys unrhyw wahaniaethu anghyfreithlon. Hefyd, byddwn yn sicrhau bod hyn oll yn cael ei adlewyrchu yn y safonau a osodwn ar gyfer y proffesiwn osteopathi, a fydd felly yn hyrwyddo cyfle cyfartal a mynediad cyfartal at y proffesiwn osteopathi.

Mawrbriso amrywiaeth

16. Yn unol â'n Strategaeth Gyfathrebu ac Ymgysylltu, byddwn yn cyfathrebu ac yn ymgysylltu ag amrywiaeth eang o randdeiliaid mewn modd hygyrch ac amserol. Byddwn yn parhau i gydnabod bod amrywiaeth yn gryfder a byddwn yn sicrhau ein bod yn mawrbriso hyn yn ein gwaith recriwtio, yn ein gwaith datblygu ac yng ngwaith parhaus ein staff, ein swyddogion anweithredol a'n rhanddeiliaid.

Croesawu cynhwysiant

17. Mae sefydliadau amrywiol a chynhwysol yn perfformio'n well na busnesau homogenaidd³. Byddwn yn sicrhau bod modd i'n diwylliant a'n gwerthoedd alluogi'r bobl sy'n gweithio gyda ni i fod yn driw iddynt eu hunain, a bod modd cynnwys eu barn yn llwyr gyda pharch ac urddas.

Sut bydd y Fframwaith yn arwain ein dull o ymdrin â Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Ein polisi a'n dyletswyddau cyfreithiol: sicrhau ein bod yn bodloni ein dyletswyddau cyfreithiol fel awdurdod cyhoeddus dynodedig sy'n ddarostyngedig i ddyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Hawliau Dynol 1998⁴.

18. Wrth i'r GOsC arfer ei swyddogaethau, rhaid i'r sefydliad roi sylw dyledus i'r canlynol:

³ [7 studies that provide the value of diversity in the workplace](#)

⁴ Gallwch gael rhagor o wybodaeth am y rhain gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol neu Swyddfa Cydraddoldebau'r Llywodraeth. Hefyd, rydym yn rheoleiddio addysg, hyfforddiant ac ymarfer yng Ngogledd Iwerddon. Nid yw'r Ddeddf Cydraddoldeb yn berthnasol yng Ngogledd Iwerddon. Ceir deddfwriaeth debyg gogyfer cydraddoldebau yng Ngogledd Iwerddon, er hefyd ceir rhai dyletswyddau penodol ychwanegol, er enghraifft hyrwyddo cyfle cyfartal ymhlith unigolion a chanddynt gredoau crefyddol gwahanol, barn wleidyddol wahanol.

- a. Yr angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erlid anghyfreithlon, yn ogystal ag ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf.
 - b. Yr angen i ddatblygu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig⁵ a phobl nad ydynt yn rhannu nodwedd warchoddedig.
 - c. Yr angen i feithrin cydberthnasau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a phobl nad ydynt yn rhannu nodwedd warchoddedig.
19. Mae 'rhoi sylw dyledus' yn golygu bod yn rhaid i ni feddwl yn ymwybodol ac yn ofalus am y dyletswyddau hyn yn ein gwaith beunyddiol, er mwyn sicrhau y bydd materion yn ymwneud â chydraddoldeb yn dylanwadu ar ein penderfyniadau wrth i ni ddatblygu polisïau a darparu gwasanaethau, ac yn ein rôl fel cyflogwr.
20. Rhaid i ni wneud hyn mewn ffordd gymesur, gan ganolbwyntio i raddau mwy ar y swyddogaethau hynny a gaiff yr effaith fwyaf ar wahanol grwpiau o bobl. Mae gennym ddyletswydd i wneud hyn hyd yn oed pan fo trydydd parti yn cyflawni'r swyddogaeth ar ein rhan.
21. Mae datblygu cyfle cyfartal yn golygu bod angen i ni roi sylw dyledus i'r canlynol:
- a. Yr angen i ddileu neu leihau anfanteision a ddaw i ran pobl oherwydd eu nodweddion gwarchoddedig.
 - b. Yr angen i gymryd camau i ddiwallu anghenion pobl â nodweddion gwarchoddedig arbennig pan fo'r anghenion hynny'n wahanol i anghenion pobl eraill.
 - c. Yr angen i annog pobl â nodweddion gwarchoddedig arbennig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu mewn gweithgareddau eraill pan fo'u cyfranogiad yn anghymesur o isel.
22. Er mwyn cydymffurfio â'r ddeddf, efallai y bydd angen trin rhai pobl yn wahanol. Mae'r ddyletswydd yn cydnabod bod anghenion pobl ag amhariad yn wahanol i anghenion pobl eraill.
23. Efallai y bydd yn rhaid cyflwyno addasiadau rhesymol neu drin pobl ag amhariad yn fwy ffafriol na phobl heb amhariad – er enghraifft, trwy gyfrwng gweithredu cadarnhaol er mwyn eu helpu i gyfranogi'n llawnach.
24. Mae rhoi sylw dyledus i'r angen i feithrin cydberthnasau da yn golygu rhoi sylw dyledus i'r angen i fynd i'r afael â rhagfarn, a hyrwyddo dealltwriaeth.
25. Yn ychwanegol at ein dyletswyddau o dan y Ddeddf Cydraddoldeb, fel corff sy'n cwmpasu'r DU i gyd mae gan y GOsC ddyletswyddau cyfreithiol o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, a bennir yn ein [Cynllun Iaith Gymraeg](#).

⁵ Y nodweddion gwarchoddedig perthnasol yw: oedran; anabledd; ailbennu rhywedd; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw; a chyfeiriadedd rhywiol. Dim ond i ddyletswydd A mae priodas a phartneriaeth sifil yn berthnasol.

Y camau y bwriadwn eu cymryd: sicrhau y caiff Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant eu plethu trwy'r modd y cyflawnwn nodau ein Cynllun Strategol ar gyfer 2019-24.

26. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. Yn arbennig, rydym yn cydnabod pa mor bwysig yw sicrhau y caiff goblygiadau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant eu hystyried cyn dechrau ar weithgareddau busnes. Yn ystod 2020, fe wnaethom gomisiynu archwiliad annibynnol o'n dull o ymdrin â Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. Y nod oedd sicrhau y gallem ddatblygu dull cynaliadwy newydd a fyddai'n adeiladu ar y pethau a wnawn yn dda ac yn nodi'r pethau y gallwn eu gwneud yn well.

27. Pennodd yr archwiliad annibynnol nifer o gamau. Byddwn yn ymdrin â'r camau hyn dros 18 mis cyntaf y Fframwaith hwn ar gyfer 2021-24. Yr adeg honno, bydd y Fframwaith yn cael ei adolygu er mwyn gweld pa gamau y bydd angen eu cymryd nesaf i wella ein ffordd o ymdrin â Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.

28. Nodir y camau hynny yn Atodiad y Fframwaith hwn.

Ein trefniadau ar gyfer llywodraethu Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant: sicrhau ein bod yn ymdrechu'n barhaus i wella ein dull o ymdrin â Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn unol ag arferion gorau.

29. Mae'n bwysig cydnabod na fyddwn byth yn cyrraedd pen y daith, pan allwn ddweud bod ein gwaith mewn perthynas â Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant wedi dod i ben. Felly, rhaid i ni ymdrechu'n barhaus i wella pob agwedd ar ein gwaith. Bydd hyn yn cynnwys:

- y modd y byddwn yn datblygu ac yn gweithredu polisiâu;
- y modd y byddwn yn datblygu ac yn cynnal ein diwylliant;
- y modd y byddwn yn sicrhau amrywiaeth y bobl y gweithiwn gyda nhw a'r bobl y rhoddwn gontractau iddynt;
- y modd y byddwn yn cyfathrebu; a hefyd
- y modd y byddwn yn adolygu, yn dadansoddi, yn cynhyrchu, yn darparu tystiolaeth ac yn adrodd am y pethau a wnawn.

30. Y Prif Weithredwr a'r Cofrestrydd sy'n gyfrifol am sicrhau bod Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn gwbl ganolog i waith y sefydliad. Y nhw a fydd yn atebol i'r Cyngor yn hyn o beth.

31. Cyngor y GOsC sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau bod y sefydliad yn bodloni ei ddyletswyddau statudol o dan y Ddeddf. Bydd y Cyngor yn cael adroddiad blynyddol yn ymwneud â materion Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, yn cynnwys ein perfformiad yn erbyn y camau a nodir yn Atodiad y Fframwaith.

32. Fel rhan o bob papur a gyflwynir gerbron y Cyngor ac un o'i bwyllgorau, bydd goblygiadau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn cael eu nodi ar y dudalen glawr ac yng nghynnwys y ddogfen drafod.
33. Bydd y Pwyllgor Archwilio yn cynorthwyo'r Cyngor trwy oruchwylio'r cynnydd a wneir gan y tîm Gweithredol o ran gweithredu argymhellion adroddiad yr archwiliad annibynnol a gynhaliwyd yn 2020.
34. Bydd ein grŵp staff Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn gweithio gyda'r Prif Weithredwr a'r Cofrestrydd a'r Tîm Uwch-reolwyr i ymdrin â'r argymhellion a nodwyd yn archwiliad annibynnol 2020. Bydd y grŵp staff yn blaenoriaethu'r camau hynny a fydd yn esgor ar yr effaith fwyaf, gan eu cyflawni dros amserlen realistig. Pan fo angen, byddant yn cael cymorth arbenigol annibynnol, a phan fo'n briodol byddant yn cyhoeddi adroddiadau ac yn cynnig cyngor ac arweiniad.
35. Ar y cyd â'r Cyngor a'r Pwyllgor Archwilio, bydd y grŵp staff Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn datblygu gwahanol fetrigau er mwyn dangos ein cynnydd yn erbyn y Fframwaith.
36. Yn ein Hadroddiad Blynyddol ar gyfer y Senedd, byddwn yn sôn am y trefniadau a roddwyd ar waith gennym i sicrhau ein bod yn gweithredu arferion da mewn perthynas â Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, fel y mynnir yn adran 40A(1)(a) o Ddeddf Osteopathiaid 1993.

Atodiad y Fframwaith: Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant 2021-24

Bydd y cynllun canlynol yn cwmpasu 18 mis cyntaf y Fframwaith:

Erbyn diwedd Gorffennaf 2021, byddwn wedi gwneud y canlynol:

- Cyhoeddi a hyrwyddo ein Fframwaith cyntaf ar gyfer Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.
- Dechrau hyrwyddo digwyddiadau cydraddoldeb ac amrywiaeth yn systematig, megis mis hanes LHDT+ ac ymwybyddiaeth o iechyd meddwl, trwy gyfrwng sianeli cyfryngau cymdeithasol y GOsC.
- Diweddarau ein templed ar gyfer Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb a rhoi canllawiau i'r staff ynglŷn â sut a phryd i ddefnyddio'r ddogfen.
- Adolygu ein deunyddiau recriwtio ar gyfer swyddi anweithredol er mwyn sicrhau eu bod yn gydnaws â Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ac nad ydynt yn cyflwyno rhwystrau a allai atal ymgeiswyr rhag ymgeisio.

Erbyn diwedd Rhagfyr 2021, byddwn wedi gwneud y canlynol:

- Adolygu a diweddarau ein tudalennau gwe Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.
- Datblygu systemau mwy systematig ar gyfer adolygu data Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ein staff a'n swyddogion anweithredol.
- Datblygu metrigau ar gyfer adolygu cynnydd ein gweithgareddau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.
- Dechrau adolygu'r adnoddau a'r cyfeiriadau a roddwn i'r rhai sydd wedi cofrestru er mwyn hyrwyddo gwell dealltwriaeth o Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.
- Adolygu pa mor hawdd yw hi i bobl godi cwynion ynglŷn ag osteopathiaid a'r GOsC.
- Ystyried a oes gan yr amlen gyllideb ddigon o adnoddau ar gyfer gweithgareddau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.

Erbyn diwedd Mehefin 2022, byddwn wedi gwneud y canlynol:

- Adolygu'r hyfforddiant a roddwn i'n staff a'n swyddogion anweithredol a rhoi newidiadau ar waith er mwyn sicrhau bod yr hyfforddiant hwnnw'n berthnasol i'n gwaith.
- Gwella ein dull systematig o fonitro data amrywiaeth ar draws y GOsC, yn cynnwys cwblhau arolwg Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ledled y proffesiwn a dadansoddi'r data a nodir yn yr ymatebion.
- Gwella'r modd yr adroddwn am ein gweithgareddau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant gerbron y Cyngor a'n rhanddeiliaid ehangach.
- Cyflwyno adroddiad i'r Cyngor ynglŷn â chynnydd y gwaith ymchwil a gydariannwn, sef ymchwil yn ymwneud â'r profiadau a gaiff grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol o addysg a hyfforddiant osteopathig.
- Sicrhau bod ein dull o ymdrin â Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn fwy systemig ar draws y sefydliad, a sicrhau y caiff arferion da eu rhannu'n rheolaidd.